Adolygiad Sefydliadol

Prifysgol Cymru, Casnewydd

Tachwedd 2010

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2011

ISBN 978 1 84979 260 8

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Cynnwys

Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad yma **2**

Cyflwyniad **3**

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad **4**
Beirniadaethau 4
Nodweddion yr arferion da 4
Argymhellion 4

Canfyddiadau'r adolygiad **6**
1 Fframwaith rheoli academaidd 6
2 Safonau academaidd 8
3 Ansawdd y cyfleoedd dysgu 9
4 Trefniadau cydweithredol 10
5 Gallu'r sefydliad i reoli gwella ansawdd 12
6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig 13
7 Gwybodaeth gyhoeddedig 14

Atodiad A: Prifysgol Cymru, Casnewydd a'i chenhadaeth **15**

Atodiad B: ASA a'i phroses Adolygiad Sefydliadol **17**

Atodiad C: Ymateb gan y Brifysgol **20**

Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad yma

ADPC	Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Academaidd
AME	Monitro a Gwerthuso Blynyddol
ASC	Pwyllgor Safonau Academaidd
CELT	Canolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu
CPG	Grŵp Partneriaethau Cydweithredol
FfCChC	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru
FDL	Dysgu hyblyg a dosranedig
FHEQ	Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon
LIS	Gwasanaethau Dysgu a Gwybodaeth
LTC	Pwyllgor Dysgu ac Addysgu
PGR	Ymchwil ôl-raddedig
PSRB	Cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio
QAU	Uned Sicrhau Ansawdd
QRS	Gwasanaethau Ansawdd a Chofrestrfa
RKEC	Pwyllgor Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth
SGAR	Grŵp Sefydlog ar Adolygiad Academaidd
SQAEC	Pwyllgor Sicrhau a Gwella Ansawdd Ysgol
UHOVI	Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd
PC	Prifysgol Cymru

Cyflwyniad

Ymwelodd tîm o adolygwyr â Phrifysgol Cymru, Casnewydd (y Brifysgol) i gynnal Adolygiad Sefydliadol ym mis Tachwedd 2010. Aeth ASA ar ymweliad cychwynnol â'r Brifysgol ym mis Chwefror 2010 i drafod agweddau ymarferol yr adolygiad. Derbyniodd ASA ddogfen hunanwerthusiad y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2010.

Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol o 22 i 24 Medi 2010 i ymchwilio – ar y cyd gyda'r Is-Ganghellor, aelodau uwch y staff a chynrychiolwyr myfyrwyr – i faterion yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau oedd yn codi o'r ddogfen hunanwerthusiad a dogfennau eraill a ddarparwyd ar gyfer y tîm. Yn ystod yr ymweliad briffio yma, nododd y tîm nifer o themâu ar gyfer yr ymweliad adolygu a pharatowyd rhaglen o gyfarfodydd wedi'i chytuno gyda'r Brifysgol.

Rhwng 14 a 16 Hydref, ymwelodd is-grwpiau o dri aelod o'r tîm adolygu â thri phartner cydweithredol y Brifysgol. Mae pob partner yn darparu un neu fwy o'r rhaglenni astudio, ac o ganlyniad mae'r myfyrwyr llwyddiannus yn ennill credyd modiwl neu ddyfarniad y Brifysgol. Yn ystod yr ymweliadau yma cyfarfu is-grwpiau'r tîm â'r staff a'r myfyrwyr.

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 8 a 12 Tachwedd 2010. Y tîm adolygu oedd:

Yr Athro Sue Frost
Ms Charlie Leyland
Yr Athro Hastings McKenzie
Yr Athro Colin Raban
Dr Catrin Thomas
Ms Rachel Lucas (ysgrifenyddes yr adolygiad)

Cydlynwyd yr adolygiad gan yr Athro Peter Hodson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn y Grŵp Adolygiadau. Er mwyn dod i'w gasgliadau, siaradodd y tîm adolygu ag aelodau o staff drwy'r Brifysgol gyfan ac â myfyrwyr cyfredol, a darllenodd amrywiaeth fawr o ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli agweddau academaidd ar ei darpariaeth.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad

Gwnaeth y tîm adolygu a benodwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) Adolygiad Sefydliadol o Brifysgol Cymru, Casnewydd ym mis Tachwedd 2010. Roedd yr adolygiad yn gwirio pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer:

- sefydlu a chynnal safonau ei dyfarniadau academaidd
- cynnal ansawdd y cyfleoedd dysgu yn y rhaglenni astudio sy'n arwain at y dyfarniadau hynny
- sicrhau dibynadwyaeth yr wybodaeth gyhoeddedig.

Roedd yr adolygiad yn cwmpasu holl ddarpariaeth y Brifysgol a'r holl drefniadau cydweithredol sy'n arwain at ei dyfarniadau.

Beirniadaethau

O ganlyniad i'w ymchwiliadau, dyma oedd barn y tîm adolygu am y Brifysgol:

- gellir teimlo'n hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau
- gellir teimlo'n hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Nodweddion yr arferion da

Nododd y tîm adolygu'r nodweddion canlynol o arfer da:

- cyfraniad y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu i addysgu a dysgu, sy'n cael effaith sylweddol ar y profiad dysgu (paragraffau 3.2 a 5.4)
- ymrwymiad y Brifysgol i'r system Mentora Myfyrwyr (paragraff 3.5)
- agwedd strategol y Brifysgol at ddatblygu ymchwil (paragraff 6.2)
- defnyddio 'logiau dysgu' ymchwil ôl-raddedig i hysbysu trafodaeth oruchwyliol a rheoli cynnydd (paragraff 6.3).

Argymhellion

Camau gweithredu buddiol

Mae'r tîm adolygu'n argymell y dylai'r Brifysgol:

- ystyried a yw effeithiolrwydd y prosesau ymgynghorol, ac felly oruchwyliaeth y sefydliad, wedi'u tanseilio gan natur a maint y busnes a aseinir i'w chymunedau (paragraffau 1.7, 3.3 a 5.3)
- sicrhau bod ei gwybodaeth gyhoeddedig yn adlewyrchu nodweddion penodol amrywiadau ar raglenni unigol (paragraff 7.4).

Gweithredoedd manteisiol

Hoffai'r tîm adolygu weld y Brifysgol yn:

- egluro ei disgwyliadau mewn perthynas â rolau allweddol y staff academaidd a myfyrwyr wrth reoli darpariaeth addysgu (paragraff 1.9)
- sicrhau bod ei threfniadau ar gyfer cymeradwyo a sicrhau trefniadau trosglwyddo ac achredu safon yn gadarn ac yn addas i'r pwrpas (paragraff 4.3)
- ystyried a yw ei threfniadau monitro'n effeithiol wrth geisio pennu'r problemau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau gweithredu priodol a phrydlon (paragraff 4.8).

Canfyddiadau'r adolygiad

1 Fframwaith rheoli academaidd

Strwythur y pwyllgorau a'r rheolaeth

1.1 Mae strwythur pwyllgorau'r Brifysgol wedi'i lunio i wahaniaethu'n glir rhwng goruchwylio ansawdd academaidd a datblygiad busnes. Y strwythur yw Bwrdd Academaidd wedi'i gefnogi gan bedwar is-bwyllgor: y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Academaidd (ADPC), y Pwyllgor Safonau Academaidd (ASC), y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu (LTC), a'r Pwyllgor Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth (RKEC).

1.2 Mae ASC wedi'i gefnogi gan ei is-bwyllgorau ei hun: y Grŵp Partneriaethau Cydweithredol (CPG), y Pwyllgor Rheoliadau a'r Grŵp Sefydlog ar Adolygiad Academaidd (SGAR). Mae gan bob un o ysgolion y brifysgol Bwyllgor Sicrhau a Gwella Ansawdd Ysgol (SQAEC), ac anfonir cofnodion y rhain at y Bwrdd Academaidd ac ASC.

1.3 Gorwedd y cyfrifoldeb cyffredinol am ddarpariaeth academaidd ysgol gyda'i Deon, a gefnogir gan y Deoniaid Cyswllt sydd â chyfrifoldeb am gynllunio a datblygu academaidd, dysgu ac addysgu, ac ymchwil a menter. Mae'r cyfrifoldeb ar y lefel sefydliadol am ddatblygu a chynnal trefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn perthyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ansawdd a Chofrestrfa (QRS) ac Uned Sicrhau Ansawdd (QAU) y Brifysgol.

1.4 Mae'r Brifysgol yn dogfennu'n glir ei gweithdrefnau i gymeradwyo, monitro ac adolygu ei darpariaeth addysg uwch, ac mae'r rhain yn cyfateb â disgwyliadau'r *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch* (*Cod Ymarfer*) a gyhoeddir gan ASA. Mae'r Brifysgol yn rhoi gwerth mawr ar gyfranogaeth allanol mewn datblygu'r cwricwlwm, a gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod arbenigwyr allanol yn cael eu defnyddio wrth gymeradwyo ac ail gymeradwyo rhaglenni, gyda phanelau dilysu ac ail ddilysu fel arfer yn cynnwys arbenigwr allanol.

1.5 Aeth y tîm adolygu ati i archwilio nifer o ddilysiadau ac ail ddilysiadau mewnol a chanfod, er bod rhywfaint o amrywiaeth yn fformat y gwaith papur, bod y prosesau'n effeithiol ac yn darparu goruchwyliaeth ganolog briodol.

1.6 Mae dull y Brifysgol o fonitro rhaglenni'n arbennig o drwyadl. Mae'r broses yn cychwyn gyda chanfod dwy thema gwella sydd i gael eu hystyried ar bob lefel o'r adrodd. Mae'r adroddiadau Monitro a Gwerthuso Blynyddol (AME) wedi'u paratoi ar bedair lefel wahanol. Seilir adroddiad trosolwg AME sefydliadol ar yr holl adroddiadau AME adrannol a sampl o'r adroddiadau AME lefel rhaglen. Mae pob Deon Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) yn defnyddio'r adroddiadau adrannol a lefel rhaglen a'r adroddiad goruchwyliaeth sefydliadol i baratoi adroddiad AME ysgol, lle rhoddir ymatebion i'r problemau a ganfuwyd. Ar bob lefel, mae'r adroddiadau AME yn canfod ac yn blaenoriaethu'r gweithredu sy'n ofynnol i ymdrin â'r meysydd sy'n achosi pryder. Maent hefyd yn canfod arferion da i'w lledaenu.

1.7 Mae'r tîm adolygu'n cydnabod bod y Brifysgol wedi rhoi llawer iawn o ymdrech i mewn i'r broses AME. Fodd bynnag, mae'r broses yn cynhyrchu adroddiadau hirion, a barn y tîm yw bod hyn yn cyfyngu ar y cyfle i ddadlau, yn arbennig ar lefel y Brifysgol. Mae'r tîm yn nodi bod y Brifysgol yn bwriadu adolygu'r broses AME. Mae hwn yn gynnig amserol ac mae'r tîm yn **argymell** i'r Brifysgol, fel deilliant i'r adolygiad mewnol hwn, ei bod yn sicrhau nad yw natur a maint y busnes a aseinir i'w phwyllgorau'n tanseilio effeithiolrwydd y prosesau ymgynghorol a goruchwyliaeth sefydliadol (gwelwch hefyd baragraffau 3.3 a 5.3).

1.8 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithredu pedair rhaglen dysgu o bell ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth yn y maes hwn. Mae cymeradwyo dysgu o bell yn dilyn gweithdrefnau safonol. Mae'r gofyniad am wybodaeth ychwanegol yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd yr elfennau hynny a ddarperir drwy drefniant dysgu hyblyg a dosranedig (FDL). Er bod y ddarpariaeth FDL bresennol yn gyfyngedig, roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn datblygu llwyfannau ar gyfer darparu darpariaeth o'r fath yn effeithiol. Mae'r gweithgaredd yma wedi'i gefnogi gan Grŵp Dysgu gyda Chymorth Technoleg, sy'n adrodd i LTC.

Cynrychiolaeth myfyrwyr a chyflogwyr ar bwyllgorau

1.9 Mae amrywiaeth mawr o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, gan gynnwys nifer o fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr wedi'u seilio yn y gwaith, felly mae hyn yn cyflwyno heriau arbennig wrth geisio rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr roi adborth. Clywodd y tîm adolygu mai'r hyn oedd ar ddeall oedd nad oedd cynrychiolaeth myfyrwyr mewn perthynas ag Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI), ond dywedwyd wrth y tîm bod trefniadau'n cael eu datblygu. Er bod cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwyllgorau'n gynhwysfawr, nid yw bob amser yn gynhyrchiol, a chanfu'r tîm dystiolaeth o gynrychiolwyr naill ai'n mynychu neu'n cyfrannu at gyfarfodydd. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod hyn ac wedi cyllido, o 2010-11, Gydlynydd Cynrychiolwyr Cyrsiau newydd i ddatblygu a hybu ymgysylltiad myfyrwyr â'r system gynrychioli. Canfu'r tîm bod rhywfaint o ddiffyg eglurder am rôl a chyfrifoldebau cynrychiolwyr a hefyd am ddisgwyliadau rhai o'r staff academaidd ynglŷn â sut y dylid cefnogi cynrychiolwyr myfyrwyr. Mae'r tîm yn cydnabod bod rhai camau'n cael eu cymryd yn barod i wella ymgysylltiad â'r system gynrychioli. Ond, mae'r tîm yn ystyried y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol weithredu ymhellach i egluro disgwyliadau mewn perthynas â rolau allweddol y staff academaidd a myfyrwyr wrth reoli'r ddarpariaeth addysgu.

1.10 Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o gyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector i bennu ac ymateb i anghenion y farchnad. Ymchwil ac Astudiaethau Graddedigion y Brifysgol sy'n arolygu cysylltiadau â chyflogwyr. Canfu'r tîm adolygu bod cyflogwyr yn gallu dylanwadu ar gynllun y cwricwlwm a gwelsant dystiolaeth bod y cyflogwyr yn fodlon â'u rhyngweithiad â'r Brifysgol.

Defnydd o'r Seilwaith Academaidd

1.11 Dywed y Brifysgol bod pwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys y Seilwaith Academaidd, yn un o'i phrif ffyrdd o sicrhau cydraddoldeb ei safonau a phennu ansawdd. Lle bo'n berthnasol, mae polisi'r Brifysgol wedi'i dywys gan y Seilwaith Academaidd, er enghraifft mewn perthynas â Rheoliadau Asesu a Dyfarnu. Canfu'r tîm adolygu bod manylebau rhaglenni'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol a'u bod yn cynnwys cyfeiriad at ddatganiadau meincnod pwnc. Caiff Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a datganiadau meincnod pwnc eu defnyddio yn rhan o'r dilysu ac ail ddilysu. Mae'r broses AME yn gofyn rhoi ystyriaeth eglur i'r ffordd mae rhaglen dan adolygiad yn ymwneud â'r datganiadau meincnod pwnc perthnasol. Nododd y tîm, fodd bynnag, bod amrywiaeth ym mha mor drylwyr y cawsai hyn ei wneud ledled y Brifysgol. Mae'n ymddangos, yn achos rhai rhaglenni a ddarperir mewn nifer o leoliadau, mai dim ond un fersiwn sydd o'r fanyleb rhaglen a bod hon wedi'i hysgrifennu i raddau mawr o safbwynt y myfyrwyr sydd wedi'u seilio ar y campws cartref (gwelwch baragraff 7.4).

1.12 Canfu'r tîm adolygu hefyd bod y Brifysgol yn mapio ei threfnau ei hun yn systematig yn erbyn y *Cod Ymarfer* sydd wedi'i gyhoeddi gan ASA, a bod y broses yma wedi'i goruchwylio'n ffurfiol gan SGAR. Fodd bynnag, yn ystyriaeth gychwynnol y Brifysgol o'r *Cod Ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)* yn 2004, canfu feysydd lle mae angen gweithredu mewn perthynas ag Adran B ar ddysgu

hyblyg a dosranedig (FDL), gan gynnwys e-ddysgu. Roedd y dystiolaeth a ddogfennwyd o fapio dilynol diweddar y fersiwn diwygiedig o *Adran 2* wedi'i gyfyngu i Adran A, fel bod y tîm yn methu cadarnhau a oedd y problemau cychwynnol wedi derbyn sylw, ond nododd bod gweithrediad arferol FDL yn llwyddiannus.

Casgliad

1.13 Yng nghyd-destun yr ystod lawn o dystiolaeth a ystyriwyd, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol yn gwneud defnydd systematig a phriodol o'r Seilwaith Academaidd. Gwiriodd y tîm hefyd bod y Brifysgol wedi mapio ei phrosesau yn erbyn y *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop* gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop.

2 Safonau academaidd

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safonau'r dyfarniadau?

2.1 Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o ddulliau o sicrhau safonau ei dyfarniadau. Mae arbenigwyr allanol (o'r sector academaidd a, lle bo'n briodol, y sectorau proffesiynol a diwydiannol) yn cynghori ar raglenni wrth iddynt gael eu datblygu a'u dilysu. Mae'r broses gymeradwyo'n cynnwys cynhyrchu manyleb rhaglen, sy'n rhoi manylion y cynnwys eang, y strategaeth asesu a chanlyniadau dysgu'r dyfarniad. Caiff y manylebau rhaglen eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol ac yn llawlyfrau'r myfyrwyr. Mae'r broses yma o ddatblygu a dilysu'r rhaglenni'n sefydlu safonau dyfarniadau'r Brifysgol.

2.2 Caiff y rhan fwyaf o ddarpariaeth y Brifysgol ei adolygu gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB). Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn ymateb yn briodol i faterion a godir gan gyrff allanol. Nododd y tîm bod y Brifysgol yn sicrhau cydnabyddiaeth o'r lefel uchaf mewn rhai meysydd wrth gyflawni gofynion cyrff achredu allanol.

Asesu

2.3 Caiff y polisïau, rheoliadau a gweithdrefnau asesu sy'n llywio dyfarniadau'r Brifysgol eu cyhoeddi yn Rheoliadau Asesu a Dyfarnu'r Brifysgol. Mae'r rheoliadau wedi'u mapio yn erbyn y *Cod Ymarfer*. Maent hefyd wedi'u cyfeirio'n eglur yn erbyn y FfCChC ac maent yn adlewyrchu gofynion y PSRB niferus y mae'r Brifysgol yn rhyngweithio â nhw. Caiff y myfyrwyr eu cyfeirio at y rheoliadau drwy lawlyfrau'r myfyrwyr a thrwy'r porth gwefan 'my Learning Essentials'. Caiff y rheoliadau eu monitro gan y Pwyllgor Rheoliadau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, ac mae'r Pwyllgor yn cynghori ASC yn rheolaidd ar newidiadau a argymhellir. Un dull monitro a ddefnyddir yw archwiliad blynyddol o weithrediad Byrddau Arholi.

2.4 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o weithredu'r Pwyllgor Rheoliadau ac mae'n cytuno gyda barn y Brifysgol bod y pwyllgor yn rhagweithiol wrth adolygu'r fframwaith rheoliadol sy'n ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau a chynnal safonau.

Arholwyr allanol

2.5 Unwaith y mae rhaglen wedi'i chymeradwyo, caiff y gwaith cynnal a chadw parhaus ar safonau'r rhaglen honno ei fonitro gan arholwyr allanol a thrwy'r broses AME. Caiff adroddiadau gan arholwyr allanol eu hadolygu ar lefelau sefydliadol, ysgol a rhaglen drwy'r broses AME i sefydlu cymaroldeb allanol safonau a phriodoldeb y dyfarniadau mewn

perthynas â'r Seilwaith Academaidd. Gofynnir hefyd i arholwyr allanol gadarnhau bod prosesau asesu'n gadarn, cyson a theg a bod gweithredu wedi digwydd mewn ymateb i adroddiadau blaenorol.

Rheoli gwybodaeth

2.6 Yn ogystal ag adborth gan arholwyr allanol, mae'r broses AME yn cynnwys ystyried data ystadegol. Rhoddir yr wybodaeth am recriwtio, derbyn, cadw a thynnu'n ôl, a chyflawniad myfyrwyr i dimau'r rhaglen. Yn ogystal ag ystyried ei data ei hun, mae'r Brifysgol hefyd yn gwerthuso data'n rheolaidd sydd wedi'i dynnu o ffynonellau eraill, ac yn cymharu ei pherfformiad gyda meincnodau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r arolwg blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch.

2.7 Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod angen datblygu ei systemau rheoli gwybodaeth ymhellach i sicrhau bod data cynhwysfawr ar gael yn gyson. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn gwneud defnydd systematig o reoli gwybodaeth i hysbysu penderfyniadau a wneir ar lefelau sefydliadol, ysgol a rhaglen.

Casgliad

2.8 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r *Cod Ymarfer* a daeth i'r casgliad bod modd teimlo'n hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau.

3 Ansawdd y cyfleoedd dysgu

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu?

3.1 Mae'r adran Gwasanaethau Dysgu a Gwybodaeth (LIS) yn cydlynu adnoddau dysgu'r Brifysgol, gan gynnwys gwasanaethau myfyrwyr, gwasanaethau llyfrgell a chefnogaeth technoleg gwybodaeth a chyfryngau. Mae cefnogaeth academaidd wedi'i darparu'n ganolog yn bennaf, drwy LIS. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngor Astudio, sy'n cynnig cefnogaeth sgiliau astudio yn y Saesneg, a hefyd yn gweithio gyda'r gwasanaethau cyfrifiadur i helpu myfyrwyr sydd ag anawsterau technolegol. Canfu'r tîm adolygu bod myfyrwyr yn ystyried y Gwasanaeth Cyngor Astudio'n arbennig o ddefnyddiol. Teimlwyd bod gan y llyfrgell stoc dda, ac ni welwyd unrhyw amrywiadau arwyddocaol rhwng y lefelau cefnogaeth sydd ar gael ar y gwahanol gampysau. Rhoddwyd gwybod i'r timau am drefniadau unigol i wasanaethau LIS gyda rhai dysgwyr wedi'u seilio yn y gwaith o UHOVI.

3.2 Mae Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol yn amlinellu'r amcanion a sefydlwyd i osod yr addysgu mewn diwylliant o ymchwil ac ysgoloriaeth. Mae gan y Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) gylch gwaith penodol ar gyfer hyn, ac mae'r Brifysgol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn sefydlu Canolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT). Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth o ymrwymiad strategol a gweithredol fel ei gilydd i'r strategaeth hon. Canfu'r tîm hefyd bod CELT yn chwarae rhan ganolog mewn datblygu rhagoriaeth mewn addysgu, gan gynnwys cynnig amrywiaeth sylweddol o weithgareddau datblygu addysgu a chyfranogaeth mewn prosiectau ymchwil a gyllidwyd i'r staff. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod CELT hefyd yn cryfhau ac yn cefnogi'r cyfraniad i addysgu a dysgu a wnaed gan y gwasanaethau cefnogi. Daeth y tîm i'r casgliad bod CELT yn ddatblygiad arweiniol yn y sector sy'n nodwedd o arfer da.

Addysgu a arweinir gan ymchwil

3.3 Mae arolygu addysgu a arweinir gan ymchwil wedi bod yn un o themâu gwelliant

blynyddol AME. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu na chafwyd dadansoddiad ar lefelau ASC a LTC o'r ffordd mae addysgu a arweinir gan ymchwil yn gwella'r amgylchedd dysgu'n weithredol i'r myfyrwyr. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol symleiddio ei system adrodd er mwyn cefnogi cynllunio gweithredoedd a dadleuon mwy sylweddol drwy ei phwyllgorau canolog (gwelwch baragraffau 1.7 a 5.3).

Tiwtoriaid astudio a mentoriaid myfyrwyr

3.4 Mae'r Brifysgol wedi gwneud ymrwymiad y bydd gan bob myfyriwr diwtor astudio, sy'n darparu'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cefnogaeth ac arweiniad personol. Canfu'r tîm adolygu nad yw hyn wedi'i weithredu'n gyson ar draws y sefydliad, er y dywedwyd wrth y tîm y gellid beio hyn yn rhannol ar wahanol derminoleg. Ni chanfu'r tîm unrhyw dystiolaeth o bolisi drwy'r sefydliad cyfan ar rôl tiwtor astudio, heblaw cyfarfod â myfyrwyr o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gan dderbyn bod gwahaniaethau posibl mewn terminoleg, daeth y tîm i'r casgliad y byddai manyleb rôl glir i diwtoriaid astudio yn hyrwyddo'r syniad ymhellach bod cefnogaeth academaidd unigol ar gael i bob myfyriwr.

3.5 Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith o fentoriaid myfyrwyr sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt i fyfyrwyr eraill. Mae gan bob ysgol Gydlynydd Mentora Myfyrwyr ymysg y staff. Pennwyd y system Mentora Myfyrwyr yn esiampl o arfer da yn Adolygiad Sefydliadol ASA 2004. Canfu'r tîm adolygu ei fod wedi'i gryfhau ymhellach ers hynny drwy hyfforddiant brwd a thrwy ddatblygu rhwydwaith ehangach o fentoriaid myfyrwyr. Gwelodd y tîm yr ymrwymiad parhaus fel nodwedd o arfer da.

Adborth

3.6 Mae'r Brifysgol yn defnyddio adborth gan fyfyrwyr i fyfyrio ar effeithiolrwydd ei gweithdrefnau cefnogi dysgu. Mae'n casglu'r wybodaeth hon drwy nifer o sianelau, gan gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwyllgorau ar lefelau adrannol, ysgol a phrifysgol. Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, yr Arolwg Profiad Addysgu Ôl-raddedig a'r Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig, ac mae hefyd yn rhedeg ei harolwg dwyflynyddol ei hun o foddhad y myfyrwyr. Mae'r agenda ar gyfer panelau ail ddilysu'n cynnwys cyfarfod gyda myfyrwyr. Er eu bod yn cydnabod bod angen gwelliant parhaus, mae'r Brifysgol yn credu bod adborth gan fyfyrwyr yn gwneud cyfraniad positif i sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y Brifysgol yn ymateb yn weithredol i'r arolygon, gyda chymorth Undeb y Myfyrwyr, a bod adborth myfyrwyr yn gwneud cyfraniad positif go iawn.

3.7 Mae'r Brifysgol yn datblygu ffyrdd o sicrhau adborth gan amrywiaeth eang ei myfyrwyr. Yr esiampl ddiweddaraf yw gwneud newid i'r Arolwg Boddhad Myfyrwyr fel ei fod yn cynnwys barn myfyrwyr ar gyrsiau a redir mewn cydweithrediad â sefydliadau partner.

Casgliad

3.8 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd teimlo'n hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhelliad a gafwyd ym mharagraff 3.3 ynglŷn â symleiddio'r system adrodd.

4 Trefniadau cydweithredol

4.1 Ymhob un o'i mathau o drefniadau cydweithredol, mae gan y Brifysgol 18 partneriaeth o fewn y DU a 15 dramor. Mae ganddi ymrwymiad strategol i gynnal ac adeiladu ar y trefniadau hyn.

4.2 Goruchwylir y trefniadau cydweithredol ar ran y Bwrdd Academaidd gan y Grŵp Darpariaeth Gydweithredol (CPG). Mae'r Panel Strategaeth Partneriaeth yn gyfrifol am ddatblygu busnes ac mae'n adrodd i Fwrdd Rheoli'r Brifysgol. Mae'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau darpariaeth gydweithredol yr un fath â'r rheiny sydd ar waith ar gyfer darpariaeth y Brifysgol, gyda mecanweithiau ychwanegol i ymdrin â'r sialensiau penodol sy'n codi wrth gydweithredu. Cyhoeddir y trefniadau gweithdrefnol yn y Llawlyfr Gweithrediadau Partner Cydweithredol, y canfu'r tîm adolygu ei fod yn gynhwysfawr a hygyrch.

4.3 Canfu'r tîm adolygu bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r trefniadau trosglwyddo. Ystyrir trefniadau trosglwyddo'n faes o dyfiant posibl, sy'n cefnogi bwriad y Brifysgol i recriwtio mwy o fyfyrwyr rhyngwladol. Roedd y gwahaniaeth rhwng trefniadau trosglwyddo, achredu ac achredu dysgu blaenorol yn aneglur ac roedd, o ganlyniad, rywfaint o ddryswch ynglŷn â pha drefnau sicrhau ansawdd sydd i gael eu defnyddio. Nododd y tîm bod y mater wedi'i gydnabod gan CPG ac y byddai'n ei hystyried yn **fanteisiol** petai'r Brifysgol, wrth weithredu, yn sicrhau bod ei threfniadau ar gyfer cymeradwyo a sicrhau trefniadau trosglwyddo ac achredu safonau'n gadarn ac yn addas i'r pwrpas.

Dethol a chymeradwyo partneriaid

4.4 Mae cymeradwyaeth ar y dechrau i raglenni cydweithredol ac i bartneriaethau'n cynnwys adroddiad cychwynnol am y partner posibl, oherwydd ymholiadau dilysrwydd a phroses ddilysu i wirio bod y partner yn gallu darparu'r cwricwlwm a gynigir. Mae'r broses yma'n cynnwys cymeradwyo'r staff a fydd yn addysgu ar y rhaglen.

Gweithrediad partneriaeth

4.5 Unwaith y sefydlir y cydweithrediad, disgwylir i bartneriaid gwblhau yr un prosesau sicrhau a gwella ansawdd â'r rheiny a ddefnyddir gan y Brifysgol. Yn ogystal, rhaid i'r ysgol gyfrifol o fewn y Brifysgol gymeradwyo'r asesiadau myfyrwyr sydd wedi'u cynnig ac mae staff y Brifysgol yn safoni'r asesiadau. Pan asesir rhaglenni mewn ieithoedd heblaw Saesneg, cyfieithir sampl o sgriptiau i'r Saesneg a chaiff sampl pellach ei wirio gan wasanaeth cyfieithu annibynnol. Canfu'r tîm adolygu bod trefniadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau safonau asesiad yn ei rhaglenni cydweithredol yn briodol ac effeithiol. Daeth y tîm i'r casgliad y gellid gwella'r trefniadau drwy ofyn bod yr holl arholwyr allanol yn ymweld â phartneriaid a thrwy sicrhau bod adroddiadau'r arholwyr allanol yn cynnwys sylwadau ar wahân am bob partner.

4.6 Aseinir cydlynwyr cyswllt i bob partner ac mae'r rhain yn gyfrifol am sicrhau bod y rhaglen ar ryddfraint yn gweithredu yn unol â gofynion y Brifysgol ac am hyrwyddo cymeradwyaeth unrhyw staff newydd sy'n dysgu ar raglenni Prifysgol. Mae'r Grŵp Partneriaethau Cydweithredol yn ystyried crynodebau adroddiadau gan gydlynwyr cyswllt bob blwyddyn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y cydlynwyr cyswllt yn gyffredinol effeithiol ac wedi'u gwerthfawrogi gan sefydliadau partner.

4.7 Gall myfyrwyr cydweithredol ddefnyddio adnoddau'r campws cartref drwy LIS a chanfu'r tîm adolygu bod LIS yn gallu cyfathrebu'r mynediad i'w wasanaethau llyfrgell i fyfyrwyr yn effeithiol a'i fod yn galluogi myfyrwyr cydweithredol i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny pan maent ar y campws. Fodd bynnag, canfu'r tîm rywfaint o ansicrwydd ymysg y myfyrwyr y cyfarfu â nhw ynglŷn â natur a maint eu hawl i adnoddau Prifysgol ehangach. Roedd myfyrwyr hefyd wedi gorfod aros cyn gallu defnyddio adnoddau ar-lein y Brifysgol oherwydd gohiriadau gyda chwblhau eu cofrestriad gyda'r Brifysgol. Mewn un bartneriaeth, ar ôl canfod amwysedd yn y berthynas rhwng rhaglen y Brifysgol a'r rhaglen yr oedd y myfyrwyr wedi'u cofrestru arni'n flaenorol, roedd hi'n ymddangos yn bosibl i'r tîm bod y sylwadau a fynegwyd gan fyfyrwyr wedi'u seilio ar gyfnod pan nad oeddent wedi'u cofrestru'n ffurfiol gyda'r Brifysgol, ac roeddent ar raglen oedd yn rhoi safle uwch.

Monitro mewn darpariaeth gydweithredol

4.8 Mae'r Brifysgol wedi canfod nad yw'r ddarpariaeth gydweithredol dramor mor amlwg yn ei phroses adrodd Monitro a Gwerthuso Blynyddol (AME) ag yr hoffai. Canfu'r tîm adolygu bod rhywfaint o weithredu wedi'i wneud i ymdrin â hyn ond, wrth oruchwylio darpariaeth gydweithredol gartref a thramor, parhaodd y Pwyllgor Safonau Academaidd (ASC) i ddibynnu ar adroddiadau gan adrannau ac ysgolion, y canfu'r tîm eu bod yn amrywiol eu hansawdd. Bydd gweithredu diweddar a chynlluniedig y Brifysgol i gryfhau'r adolygiad cyfnodol o'i phartneriaethau'n gwella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael. Bydd hyn yn galluogi i ASC gyflawni ei gyfrifoldeb am fonitro a gwerthuso safonau academaidd ac ansawdd rhaglenni cydweithredol. Roedd y tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol, yn ei hadolygiad cynlluniedig o'r broses AME, ystyried a yw ei threfniadau monitro'n effeithiol o ran canfod problemau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau gweithredu amserol a phriodol.

Casgliad

4.9 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol, yn gyffredinol, fframwaith cadarn ar gyfer ei threfniadau cydweithredol a'i bod yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r *Cod Ymarfer.* Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion a gafwyd ym mharagraffau 4.3 a 4.8.

5 Gallu'r sefydliad i reoli gwella ansawdd

5.1 Mae'r Brifysgol wedi diffinio gwella ansawdd fel 'y broses o gymryd camau pwrpasol i wella ansawdd profiad y myfyrwyr' ac mae'n gweld gwelliant fel gweithgaredd sydd i gael blaenoriaeth. Mae'n credu bod ei hagwedd tuag at wella ansawdd yn pwysleisio'r berthynas rhwng rheoli ansawdd drwy bwyllgorau lefel prifysgol a staff uwch a hybu arferion da mewn ysgolion ac adrannau.

5.2 Yn strwythurol, mae'r Brifysgol wedi cefnogi ei hagwedd tuag at wella ansawdd drwy ddatblygu SQAEC, sydd â'r amcan o integreiddio sicrhau a gwella ansawdd, a thrwy ddechrau gosod gwella ansawdd yng nghanol y drefn AME. Mae CELT hefyd yn chwarae rôl bwysig mewn cefnogi a datblygu gwella ansawdd drwy ystod o weithgareddau, yn cynnwys grantiau addysgu a dysgu, cymrodoriaethau addysgu a chynhyrchu cyhoeddiadau a gydnabyddir yn genedlaethol.

5.3 Mae'r Brifysgol yn gosod dwy thema ar gyfer gwelliant i'w hystyried yn AME bob blwyddyn. Pan fydd y rhain wedi derbyn ystyriaeth ymhob adran ac ysgol, mae'r canlyniadau cryno'n cyfrannu at Adroddiad Gwella Ansawdd blynyddol i'r LTC. Canfu'r tîm adolygu bod y broses AME yn cynhyrchu tystiolaeth sylweddol yn ei hymdrechion i amlygu arferion da ac arloesi mewn addysgu a dysgu. O ganlyniad, gall SQAEC ganolbwyntio ar nodweddion o arfer da. Canfu'r tîm lai o dystiolaeth o ddadl mewn pwyllgorau lefel prifysgol am effaith gwella ansawdd ar brofiad y myfyrwyr. Mae adrodd systematig drwy bwyllgorau'n cynhyrchu adroddiadau cryno sylweddol i'w hystyried mewn pwyllgorau canolog. Byddai system adrodd fwy cryno'n cefnogi cynllunio gweithredoedd a dadleuon ehangach drwy'r pwyllgorau canolog. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol ystyried a yw effeithiolrwydd y prosesau ymgynghorol, ac felly oruchwyliaeth sefydliadol, wedi'u tanseilio gan natur a maint y busnes sydd wedi'i aseinio i'w phwyllgorau ac a fyddai system adrodd symlach yn cefnogi cynllunio gweithredoedd a dadleuon mwy cynhyrchiol drwy ei phwyllgorau canolog (gwelwch baragraffau 1.7 a 3.3).

5.4 Nododd y tîm adolygu bod CELT yn chwarae rôl allweddol mewn cefnogi gwelliant mewn ansawdd. Mae'n cynnig amrywiaeth sylweddol o weithgareddau datblygu addysgu i staff a chyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a ariennir. Mae ei gynadleddau, seminarau a chyhoeddiadau'n dod â chanfyddiadau sy'n cael eu dosbarthu o fewn y

Brifysgol a'u defnyddio gan staff i hysbysu eu harferion addysgu. Mae CELT hefyd yn monitro addysgu a arweinir gan ymchwil ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Weithrediaeth Rheolwyr ac i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Canfu'r tîm bod gweithgareddau wedi'u hyrwyddo a'u harwain gan CELT yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad dysgu'r myfyrwyr ar y campws ac mewn rhai sefydliadau partner. Daeth y tîm i'r casgliad bod cyfraniadau CELT yn nodwedd o arfer da.

Casgliad

5.5 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn brysur ymgysylltu â'r ysgolion yn y broses o weithredu ei hagenda i wella profiad y myfyrwyr. Ond mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhelliad a gafwyd ym mharagraff 5.3 ynglŷn â symleiddio'r system adrodd.

6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig

6.1 Ar hyn o bryd, mae'r dyfarniadau gradd ymchwil a ddarperir yn y Brifysgol wedi'u gwneud gan Brifysgol Cymru, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am safonau. Mae Prifysgol Cymru, Casnewydd wedi gwneud penderfyniad strategol i sicrhau pwerau dyfarnu graddau ymchwil ac mae'n bwriadu ehangu ei darpariaeth rhaglenni ôl-raddedig, yn rhan o'i chenhadaeth i gynyddu nifer y myfyrwyr. Mae ganddi gyfres o reoliadau graddau ymchwil sy'n gweithredu o fewn rheoliadau trosfwaol Prifysgol Cymru. Mae polisïau'r Brifysgol wedi'u datblygu yn unol â'r *Cod Ymarfer, Adran 1: Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig,* a gyhoeddir gan ASA, ac maent yn glir ynglŷn â chymwysterau mynediad, derbyniad, cyflwyniad, a threfniadau ar gyfer monitro a goruchwylio. Mae mecanweithiau adrodd, ynghyd â'r broses fonitro a gwerthuso flynyddol, yn sicrhau bod gan y Brifysgol oruchwyliaeth glir ar ei myfyrwyr gradd ymchwil.

6.2 Mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod ei nifer myfyrwyr ymchwil yn weddol fach ac am y rheswm yma mae wedi cymryd agwedd strategol tuag at ddatblygu ei diwylliant a'i hamgylchedd ymchwil. Mae ei strategaeth ymchwil wedi canolbwyntio ar gryfderau a phrofiad cyfredol, gan gefnogi cyfnewidiad gwybodaeth a gwaith ymchwil gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat lleol. Cryfhawyd datblygiad diwylliant ymchwil bywiog i'r myfyrwyr drwy sefydlu naw canolfan ymchwil, y cam cyntaf mewn cynlluniau i ddatblygu Ysgol i Raddedigion. Canfu'r tîm adolygu bod yr agwedd strategol hon tuag at ddatblygu amgylchedd ymchwil y Brifysgol wedi sefydlu cefnogaeth gref i fyfyrwyr ymchwil, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, rhyngweithio gyda myfyrwyr eraill a defnyddio adnoddau ymchwil. Barnwyd bod hwn yn nodwedd o arfer da.

6.3 Goruchwylwyr ymchwil yw pwynt cyswllt cyntaf y myfyrwyr o fewn y Brifysgol. Maen nhw'n gyfrifol am fonitro cynnydd y myfyrwyr ac adrodd yn ôl yn fanwl i'r Brifysgol am y cynnydd yma. Mae'r Brifysgol wedi rhoi sylw i ddatblygiad y staff goruchwyliol, ac mae adborth y myfyrwyr yn bositif iawn am ansawdd timau goruchwyliol. Disgwylir i fyfyrwyr gwblhau llyfr log personol a ddefnyddir i gofnodi cynllunio datblygiad personol ac i fonitro cynnydd yn ffurfiol. Canfu'r tîm adolygu bod y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd yn gwerthfawrogi'r llyfr log personol. Daeth y tîm i'r casgliad bod agwedd y Brifysgol tuag at hysbysu trafodaeth oruchwyliol a rheoli cynnydd myfyrwyr, trwy ddefnyddio logiau dysgu, yn nodwedd o arfer da am ei fod yn hwyluso dysgu ac yn gwella ansawdd yr ymchwil.

Casgliad

6.4 Yn gyffredinol, canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol fframwaith cadarn ar gyfer ei threfniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u diffinio'n glir yn y Rheoliadau Asesu a Dyfarnu Graddau Ymchwil a Llawlyfr y Myfyrwyr Ymchwil. Mae'r amgylchedd ymchwil a phrofiad ymchwil ôl-raddedig yn cyflawni disgwyliadau'r *Cod Ymarfer, Adran 1* yn llawn.

7 Gwybodaeth gyhoeddedig

7.1 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i wirio cywirdeb gwybodaeth gyhoeddedig, a'i bod yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gwybodaeth gyhoeddus drwy adborth rheolaidd y myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn llawlyfr y myfyrwyr, sy'n darparu'r wybodaeth hanfodol am astudio yn y Brifysgol, a chânt eu cyfeirio at dudalennau gwe sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys y Rheoliadau Asesu a Dyfarnu. Mae'r llawlyfr sefydliadol wedi'i gynhyrchu gan yr Adran Farchnata a Materion Allanol a'i adolygu'n flynyddol gan y gweithgor cofrestru a chyflwyniad.

7.2 Nododd y tîm adolygu bod y mwyafrif o fyfyrwyr yn cael yr wybodaeth a ddarperir yn gywir a defnyddiol, er bod rhai gwallau achlysurol wedi digwydd, yn enwedig lle mae cyrsiau'n mynd trwy ddatblygiad mawr.

7.3 Mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol, mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo cyfres ddiwygiedig o weithdrefnau'n ddiweddar ar gyfer monitro a chymeradwyo defnyddiau hyrwyddo ac i wirio cywirdeb llawlyfrau'r myfyrwyr. Mae'r protocol newydd yn aseinio amrywiol gyfrifoldebau i'r Gweinyddwr Partneriaethau, Swyddfa Ryngwladol, Marchnata a chydlynwyr cyswllt gyda'r gweithredu'n cael ei gydlynu gan y Gwasanaethau Ansawdd a Chofrestrfa. Mae gwybodaeth gyhoeddus, cyhoeddusrwydd a defnyddiau hyrwyddo'n ymwneud ag Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI) yn gofyn cymeradwyaeth y tîm craidd UHOVI.

7.4 Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi manylebau rhaglenni sy'n cynnwys gwybodaeth y mae'n ei hystyried o fudd sylfaenol i ddarpar-fyfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw manylebau rhaglenni a gyhoeddwyd yn adlewyrchu unrhyw amrywiaeth lleol mewn darpariaeth pan fo'r rhaglen wedi'i gosod ar ryddfraint i sefydliad partner. Mewn un achos, canlyniad hyn oedd bod y myfyrwyr oedd yn astudio mewn partner i'r Brifysgol yn ansicr ynglŷn â gwir natur y rhaglen yr oeddent wedi'u gosod arni. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod ei gwybodaeth gyhoeddedig yn adlewyrchu nodweddion penodol amrywiadau unigol ar raglenni (gwelwch baragraff 1.11).

7.5 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyhoeddi costau'r cyrsiau'n llawn. Er nad yw costau'r cyrsiau wedi'u cynnwys yn y prosbectws cyfredol, mae gwaith cychwynnol yng ngwasanaethau'r myfyrwyr wedi golygu bod amcangyfrifon bras wedi'u casglu ynghyd i gael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag awgrymiadau ariannol i fyfyrwyr. Mae'r Adran Farchnata a Gwerthu wedi datblygu dull o helpu adrannau i gasglu'r wybodaeth yma cyn i'w llawlyfrau fynd i gael eu cyhoeddi.

Casgliad

7.6 Canfu'r tîm adolygu bod yr wybodaeth a gyhoeddir gan y Brifysgol yn gywir, cynhwysfawr a dibynadwy. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cydymffurfio â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhelliad ym mharagraff 7.4 ar amrywiadau unigol ar raglenni.

Atodiad A: Prifysgol Cymru, Casnewydd a'i chenhadaeth

Sefydlwyd Prifysgol Cymru, Casnewydd (sef Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd gynt) yn 1996 pan ganiatawyd i Goleg Addysg Uwch Gwent ddod yn aelod o Brifysgol Cymru fel Coleg Prifysgol, wedi iddo dderbyn pwerau dyfarnu graddau. Roedd Coleg Addysg Uwch Gwent ei hun wedi'i ffurfio yn 1975 drwy gyfuno tri sefydliad: Coleg Caerllion, Coleg Celf Casnewydd, a Cholleg Technoleg Casnewydd a Sir Fynwy. Yn 2003 rhoddwyd statws Sefydliad Cyfansoddol i'r sefydliad gan Brifysgol Cymru, ac o ganlyniad i hynny, yn 2004, rhoddodd y Cyfrin Gyngor ganiatâd iddo newid ei enw i 'Brifysgol Cymru, Casnewydd'.

Mae'r Brifysgol wedi meddu ar bwerau dyfarnu graddau a addysgir ers 1995 ond nid yw wedi eu rhoi mewn grym. Ers cau'r Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol, mae'r holl raddau a dyfarniadau interim cysylltiedig yn y Brifysgol wedi bod yn ddyfarniadau Prifysgol Cymru (PC). Dan drefniadau a gyflwynwyd gan Brifysgol Cymru yn 2005, mae'r cyfrifoldeb cyfan am ansawdd a safonau wedi'i ddirprwyo i sefydliadau aelodol pan fyddent wedi derbyn pwerau dyfarnu graddau ar y lefel briodol. Mewn perthynas â graddau ymchwil, mae'r Brifysgol yn gweithredu dan 'drefniadau interim' gyda PC nes y bo'n ennill pwerau dyfarnu graddau ymchwil. Dan y trefniadau hyn, mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb am ansawdd ei darpariaeth graddau ymchwil ond mae PC yn cadw'r cyfrifoldeb am safonau academaidd, ac mae wedi rhoi nifer o fecanweithiau ar waith sy'n berthnasol i'r rôl yma.

Rheolir y ddarpariaeth academaidd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd drwy'r pedair ysgol academaidd: Ysgol Gelf, y Cyfryngau a Dylunio Casnewydd; Ysgol Fusnes Casnewydd; Ysgol Addysg Casnewydd; ac Ysgol Iechyd a Gwyddorau Cymdeithasol Casnewydd. Mae hefyd Ganolfan Dysgu Cymunedol a Gydol Oes. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithredu ar ddau brif gampws yng Nghasnewydd, Allt-yr-ynn a Chaerllion. Mae lleoliad ar gyfer cynnig darpariaeth wedi'i seilio yn y gymuned yn Nhredegar, a Champws Dinas mawr newydd a agorwyd ym mis Ionawr 2011.

Datganiad cenhadaeth

Cenhadaeth y Brifysgol, fel y mae wedi'i nodi yn ei Chynllun Strategol, yw 'ysbrydoli a galluogi unigolion, sefydliadau a chymunedau i lwyddo drwy arloesi mewn dysgu, ymchwil a menter o ansawdd da'. Mae'r genhadaeth yn adlewyrchu traddodiad y Brifysgol o ehangu mynediad a darparu cyfleoedd addysg uwch i gymunedau ym mhum sir De-ddwyrain Cymru, ynghyd â'i rôl mewn arwain a chefnogi sefydlu economi bywiog, cymdeithasol gynhwysol, wedi'i seilio ar wybodaeth yn rhanbarth dinas Casnewydd. Mae'r genhadaeth yn gyson gyda blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Addysg Uwch yng Nghymru.

Darpariaeth gydweithredol

Ym mis Mai 2009-10 roedd gan y Brifysgol oddeutu 9,280 o gofrestriadau myfyrwyr, a hynny'n cynnwys mwy na 1,000 ar raglenni ar ryddfraint i golegau addysg bellach ledled Cymru. Mae proffil y myfyrwyr yn cynnwys canran mawr o fyfyrwyr rhan amser a chyfran sylweddol o bobl ifainc yn dod i mewn o golegau ac ysgolion gwladol, dosbarthiad economaidd-gymdeithasol 4, 5, 6 a 7 yr Ystadegau Gwladol a chymdogaethau cyfranogaeth isel. Mae Strategaeth Portffolio'r Brifysgol yn nodi'r amcan penodol o gynyddu nifer y cofrestriadau myfyrwyr i oddeutu 10,000 erbyn Rhagfyr 2015.

Datblygiadau ers yr adolygiad ansawdd academaidd blaenorol

Gweithredwyd yr Adolygiad Sefydliadol blaenorol ym mis Tachwedd 2004 ac roedd yn mynegi hyder yng nghadernid rheolaeth gyfredol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei rhaglenni academaidd a safonau academaidd ei dyfarniadau.

Yn 2006, bu'r Brifysgol yn cymryd rhan yn archwiliad ASA o'r ddarpariaeth gydweithredol dramor yn Tsieina. Daeth yr adroddiad i'w gasgliad drwy gyfeirio at ddwy nodwedd o arfer da: y dull o ddiogelu'r broses asesu, gan gynnwys defnyddio arolygwyr allanol; a'r gofal a gymerir i sefydlu presenoldeb Prifysgol yn ei sefydliad partner, gan roi i'r myfyrwyr synnwyr clir o hunaniaeth gyda'r Brifysgol. Argymhellwyd hefyd y dylai'r Brifysgol ystyried cyfundrefnu a dogfennu'r arferion presennol, gyda chyfeiriad arbennig at y dulliau o ddarparu ac asesu mewn Tsieinëeg a chymeradwyo canolfannau allgymorth, ac argymhellwyd y dylai adolygu ei dull o eirio'r dystysgrif dyfarniad gan ddangos iaith y darparu a'r asesu. Mae'r Brifysgol wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion yn archwiliad ASA o'i chysylltiadau partneriaeth yn Tsieina.

Ers yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf, mae'r Brifysgol wedi cyfranogi yn adolygiad arbennig ASA o raglenni ymchwil ôl-raddedig. Daeth hwn i'r casgliad bod gallu'r Brifysgol i ddiogelu a gwella ansawdd a safonau ei darpariaeth ymchwil ôl-raddedig yn foddhaol.

Ymysg y datblygiadau arwyddocaol eraill a gafwyd ers yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf y mae penodi Is-Ganghellor newydd ym mis Ionawr 2007, cyfuno nifer o ysgolion, creu dwy swydd reoli uwch newydd, a gwelliannau i ystâd a chyfleusterau'r Brifysgol.

Atodiad B: ASA a'i phroses Adolygiad Sefydliadol

Gan y prifysgolion a'r colegau unigol y mae'r prif gyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd addysg uwch yn y DU. Mae pob un o'r rhain yn annibynnol ac yn hunanlywodraethol. Mae ASA yn gwirio i ba raddau y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, gan ganfod arferion da a gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd o wella. Mae ASA hefyd yn cyhoeddi canllawiau i helpu prifysgolion a cholegau i ddatblygu systemau effeithiol a fydd yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiadau o ansawdd da.

Un o swyddogaethau craidd ASA yw gwneud adolygiadau a rhoi gwybod i'r cyhoedd sut mae prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill yn cynnal ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cynnig i fyfyrwyr a safonau academaidd y dyfarniadau a gynigiant. Yng Nghymru, adnabyddir y broses hon fel Adolygiad Sefydliadol. Mae ASA yn gweithredu prosesau tebyg ond ar wahân yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn yr Alban.

Adolygiad Sefydliadol

Nodau Adolygiad Sefydliadol yw diogelu buddiannau'r cyhoedd fel eu bod yn gwybod bod prifysgolion a cholegau yn:

- darparu cymwysterau a dyfarniadau addysg uwch o ansawdd dderbyniol ac i safon academaidd briodol
- arfer eu pwerau cyfreithiol i ddyfarnu graddau mewn ffordd briodol.

Beirniadaethau

Mae'r tîm Adolygiad Sefydliadol yn gwneud beirniadaethau am y sefydliad ar sail:

- yr hyder y gall ei deimlo yng nghadernid rheolaeth gyfredol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau
- yr hyder y gall ei deimlo yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei raglenni.

Mae'r beirniadaethau hyn wedi'u mynegi fel naill ai **hyder**, **hyder cyfyngedig** neu **ddim hyder** ac yn cyd-fynd â nhw rhoddir esiamplau o arferion da ac argymhellion ynglŷn â ffyrdd o wella.

Mae'r geiriau 'safonau academaidd' wedi'u defnyddio i ddisgrifio lefel y cyrhaeddiad y mae'n rhaid i fyfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill dyfarniad (er enghraifft, gradd). Dylai fod ar lefel debyg drwy Brydain (DU) gyfan.

Mae ansawdd academaidd yn ffordd o ddisgrifio i ba raddau mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu helpu i ennill eu dyfarniad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod addysgu, cefnogaeth, asesiad a chyfleoedd dysgu priodol wedi'u darparu iddynt.

Safonau sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol

Mae'r Adolygiad Sefydliadol yn defnyddio cyfres o bwyntiau cyfeirio sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol, yr hyn a adnabyddir fel y Seilwaith Academaidd, i ystyried safonau ac ansawdd sefydliadau. Cyhoeddir y rhain gan ASA ac maen nhw'n cynnwys:

- *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), sy'n cynnwys disgrifiadau o wahanol gymwysterau addysg uwch
- Y *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch*
- datganiadau meincnod pwnc, sy'n disgrifio nodweddion graddau mewn gwahanol bynciau
- canllawiau ar gyfer paratoi manylebau rhaglenni, sef disgrifiadau o'r hyn a gynigir i fyfyrwyr mewn gwahanol raglenni astudio, ac sy'n amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r nodweddion y dylai myfyriwr sy'n cwblhau'r rhaglen honno feddu arnynt. Maent hefyd yn rhoi manylion dulliau addysgu ac asesu ac yn cysylltu'r rhaglen â'r FHEQ.

Y broses adolygu

Gweithredir Adolygiad Sefydliadol gan dîm sy'n cynnwys aelodau academaidd ac un aelod o blith y myfyrwyr, sy'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau'n goruchwylio eu hansawdd a'u safonau academaidd.

Prif elfennau Adolygiad Sefydliadol yw:

- ymweliad cychwynnol gan ASA â'r sefydliad, naw mis cyn yr ymweliad adolygu
- dogfen hunanwerthusiad a gyflwynwyd gan y sefydliad, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- cyflwyniad ysgrifenedig gan gorff cynrychioliadol y myfyrwyr, os ydynt wedi dewis gwneud hynny, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- ymweliad briffio manwl â'r sefydliad gan y tîm adolygu, bum wythnos cyn yr ymweliad adolygu
- yr ymweliad adolygu, sy'n para am bum niwrnod
- cyhoeddi adroddiad am feirniadaethau a chanfyddiadau'r tîm adolygu, 22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad

Er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer ei feirniadaeth, mae'r tîm adolygu'n cyflawni amryw o weithgareddau, gan gynnwys:

- adolygu gweithdrefnau a dogfennau mewnol y sefydliad ei hun, megis rheoliadau, datganiadau polisi, codau ymarfer, cyhoeddiadau penodi a chofnodion cyfarfodydd perthnasol, yn ogystal â'r ddogfen hunanwerthusiad ei hun
- adolygu'r cyflwyniad ysgrifenedig gan y myfyrwyr
- holi'r staff perthnasol
- siarad â myfyrwyr am eu profiadau.
- archwilio sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn casglu tystiolaeth drwy ganolbwyntio ar esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad ar waith gan ddefnyddio 'llwybrau thematig'. Gall y llwybrau hyn ganolbwyntio ar allu prosesau sefydliadol i weithio ar lefel leol ac ar draws y sefydliad cyfan.

Mae gofyn i sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd a safonau eu rhaglenni a'u dyfarniadau mewn fformat sydd wedi'i argymell yn y ddogfen 04/05 *Gwybodaeth am ansawdd a safonau mewn addysg uwch,* a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Atodiad C: Ymateb gan y Brifysgol

Mae Prifysgol Cymru, Casnewydd yn croesawu adroddiad Adolygiad Sefydliadol ASA ym mis Tachwedd 2010, sy'n ymdrin â'r rhaglenni academaidd a gynigir yng Nghasnewydd a'r rheiny a gynigir yn sefydliadau partner cydweithredol y Brifysgol. Rydym yn croesawu'n arbennig farn y tîm adolygu o hyder yng nghadernid rheolaeth bresennol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd y dyfarniadau ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr. Mae'n bleser gennym weld bod y tîm adolygu wedi pennu nifer o nodweddion o arfer da, gan gynnwys agwedd strategol y Brifysgol at ddatblygu ymchwil, a byddwn yn adeiladu ar y rhain yn y dyfodol wrth i ni roi ein hamcanion strategol ar waith, gan gynnwys cyflwyno cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil. Rydym wedi nodi argymhellion y tîm adolygu ac rydym wrthi'n gweithredu'n barod i fynd i'r afael â'r rhain, neu rydym ar fin gweithredu i ymdrin â nhw dros y misoedd nesaf.

Mae'r Brifysgol wedi cael y broses o gyfranogi yn yr adolygiad yn werthfawr, yn arbennig yn nhermau'r cyfleoedd a grëwyd i fyfyrio drwy'r sefydliad cyfan ar effeithiolrwydd y trefniadau i wella ansawdd a chynnal safonau, a hoffem ddiolch i'r tîm adolygu am eu dull cadarnhaol o wneud ei ymholiadau.

RG 699 04/11

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk